Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
–
Health and Social Care Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
0300 200 6565
–
Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

Eluned Morgan
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru

8 Gorffennaf 2022

Annwyl Eluned

Gwaith dilynol ar argymhellion Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Bumed Senedd: Gweithgarwch corfforol ymhlith plant a phobl ifanc

Ym mis Mawrth 2019, cyhoeddodd Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Bumed Senedd adroddiad ei ymchwiliad i weithgarwch corfforol ymhlith plant a phobl ifanc. Yn ein cyfarfod ar 4 Mai 2022, cytunodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol presennol i wneud gwaith dilynol ar argymhellion allweddol a wnaed gan ein Pwyllgor blaenorol.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r materion sy'n codi yn yr atodiad erbyn 1 Medi 2022.

Mae copi o'r llythyr hwn hefyd wedi'i anfon at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, o ystyried faint o orgyffwrdd sydd o ran portffolios y Pwyllgor.

Yn gywir

Russell George

Russell George AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

cc Jayne Bryant, Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

Atodiad: Argymhellion a wnaed gan Bwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Bumed Senedd fel rhan o'i ymchwiliad i weithgarwch corfforol ymhlith plant a phobl ifanc

Cefndir

Cyhoeddodd Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Bumed Senedd ei adroddiad ar weithgarwch corfforol ymhlith plant a phobl ifanc ym mis Mawrth 2019, flwyddyn cyn y pandemig COVID-19. Cafodd y pandemig effaith sylweddol ar weithgarwch corfforol plant a phobl ifanc ers y cyfnod clo, pan orfodwyd ysgolion a chlybiau chwaraeon i gau.

Roedd y Pwyllgor blaenorol yn bryderus iawn bod ffigurau Rhaglen Mesur Plant Iechyd Cyhoeddus Cymru yn dangos y bu cynnydd yn nifer y plant pedair i bum mlwydd oed sy'n ordew. Mae mwy nag un o bob pedwar plentyn pedair i bum mlwydd oed dros eu pwysau neu'n ordew yng Nghymru.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r materion isod erbyn 1 Medi 2022.

Y diweddaraf ynghylch yr argymhellion

Roedd yr adroddiad yn cydnabod bod gweithgaredd corfforol i blant a phobl ifanc yr un mor bwysig i ddatblygiad cymdeithasol a meddyliol plant ag ydyw i'w hiechyd. Gwnaeth y Pwyllgor 20 o argymhellion yn ymwneud â: fframweithiau mesur cenedlaethol ar gyfer gweithgarwch corfforol a gordewdra; rôl ysgolion a seilwaith; pwysigrwydd modelau rôl benywaidd mewn chwaraeon; cyllid cynaliadwy ar gyfer clybiau chwaraeon; a'r defnydd o fannau gwyrdd cymunedol. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru wrthod dau argymhelliad (6 ac 8). Derbyniodd Llywodraeth Cymru y 18 argymhelliad arall, naill ai'n llawn neu mewn egwyddor.

1. Rhowch ddiweddariad ar weithredu'r argymhellion a gafodd eu derbyn gan Lywodraeth Cymru (argymhellion 1-5, 7 a 9-20). Dylai'r diweddariad gynnwys gwybodaeth am y camau sydd wedi'u cymryd, unrhyw gamau gweithredu arfaethedig, a, lle bo'n briodol, manylion adnoddau cysylltiedig, amserlenni cynlluniedig, a sut mae effaith a chanlyniadau camau gweithredu a gwariant wedi cael eu gwerthuso a'u mesur (neu sut bydd hyn yn digwydd).

Materion eraill

Daeth y Pwyllgor blaenorol i'r casgliad bod lefelau gweithgarwch corfforol ymhlith rhai plant a phobl ifanc yn rhy isel. Rydym wedi gweld hyn yn diryiwo ymhellach yn ystod y pandemig COVID-19.

2. Nodwch yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â phryderon ynghylch nifer y bobl ifanc sy'n segur o ganlyniad i COVID-19 a'r cyfnodau clo a chyfyngiadau eraill a fabwysiadwyd mewn ymateb i'r pandemig.

3. Nodwch sut y mae unrhyw gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd yn cael eu targedu i ystyried/mynd i'r afael ag anghydraddoldebau y mae pobl yn eu profi ar sail eu nodweddion gwarchodedig neu'r grwpiau neu gymunedau y maent yn perthyn iddynt.

4. Cadarnhewch a yw'r cynnydd mewn costau byw yn peri unrhyw risgiau i lefelau gweithgarwch corfforol ymhlith plant a phobl ifanc, ac os felly, beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i liniaru'r risgiau hynny.